OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 3316 (Cy.301)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Diwygio) (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud - -	*12 Rhagfyr 2006*
Yn dod i rym - -	*30 Mehefin 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 10(3), (4)(b) a (5) a 93(1)(b) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy o ran Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Diwygio) (Cymru) 2006.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Mehefin 2007.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

2. Ar ôl rheoliad 3A (datganiadau dylunio a mynediad) o Reoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(**3**), mewnosoder—

"**Access Statements: Wales**

3B.—(1) Any application to a local planning authority for listed building consent must, subject to paragraph (3), be accompanied by a statement ("an access statement") explaining how issues relating to access to the building have been dealt with.

(2) Subject to paragraph (3), an access statement must explain—

(**1**) 1990 p.9. Diwygiwyd adran 10 gan adran 42(6) i (8) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p.5). Gweler adran 91(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i gael y diffiniad o "prescribed".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672). *Gweler* y cofnod ar gyfer Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn Atodlen 1 i Orchymyn 1999 fel y'i diwygiwyd gan adran 118(3) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

(**3**) O.S. 1990/1519, y mae iddo ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.